# DATHLU 20 MLYNEDD O SWYDDOGION CYMORTH CYMUNEDOL YR HEDDLU




SCCH
20
DATHLU
AMDDIFFYN

UNISON
Cymru Wales




Dathlu 20 Mlynedd o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu

## Rhagarweiniad

Eleni, mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH) yn dathlu 20 mlynedd o ddarparu plismona yn y gymdogaeth. Crëwyd rôl SCCH gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002, ac ers hynny mae SCCH wedi profi eu gwerth.

UNSAIN yw'r undeb ar gyfer SCCH. Rydym yn falch o'u cynrychioli a'r gwaith hanfodol y maent yn ei wneud. Gobeithiwn y bydd pawb sydd â diddordeb mewn plismona yn ymuno â ni a'n haelodau i ddathlu llwyddiant SCCH wrth ddarparu plismona cymunedol dros yr 20 mlynedd diwethaf. Yn y bôn, heb SCCH, nid oes unrhyw blismona lleol.

Mae SCCH yn darparu presenoldeb heddlu gweladwy iawn. Maent yn helpu i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn rhoi sicrwydd i bobl, yn casglu gwybodaeth ac yn gweithio gyda busnesau, ysgolion a phartneriaid statudol i gadw cymunedau'n ddiogel. Mae SCCH yn rym er daioni.

Mae pobl wrth eu bodd â gwelededd SCCH, eu gwybodaeth fanwl am ardaloedd lleol a'r ffaith eu bod yn hygyrch. Denodd rôl SCCH y gyfran uchaf erioed o weithwyr newydd o blith cymunedau Croenddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i wasanaeth yr heddlu. Yn syml, mae SCCH yn allweddol i gynnal hyder y cyhoedd mewn plismona.

Er gwaethaf eu llwyddiant, mae niferoedd SCCH yn Lloegr wedi gostwng 45% ers 2010. Yng Nghymru, mewn cyferbyniad, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi mewn SCCH ychwanegol, gan ddangos yn amlwg iawn, lle mae yna ewyllys gwleidyddol, y gellir mynd ati i gynyddu plismona yn y gymdogaeth.

Felly, i nodi 20 mlynedd, mae UNSAIN yn galw ar Lywodraeth y DU, ASau, Aelodau'r Senedd, Prif Gwnstabliaid, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, Arweinwyr Cynghorau a Meiri



Etholedig, i ymrwymo i gefnogi gweithlu SCCH am yr 20 mlynedd nesaf.  Bydd angen cyllid ychwanegol er mwyn cynyddu niferoedd SCCH yn Lloegr. Mae UNSAIN yn galw am 7,600 o swyddi SCCH ychwanegol yma i wneud iawn am y rhai a gollwyd ers 2010.

Trwy ailadeiladu’r gweithlu SCCH yn Lloegr, a thrwy barhau â’r lefel uchel o gefnogaeth yng Nghymru, mae gan yr heddlu a’r cymunedau y mae’n eu gwasanaethu bopeth i’w ennill.

## Mae SCCH yn Blismona Gweladwy

*‘Rôl sylfaenol SCCH yw cyfrannu at blismona cymunedol trwy batrolio gweladwy wedi’i dargedu, gyda’r diben o ymgysylltu â’r cyhoedd a rhoi sicrwydd iddynt; cadw trefn mewn mannau cyhoeddus; bod yn hygyrch i gymunedau; a gweithio ar lefel leol gyda rhanddeiliaid i ddatrys neu liniaru problemau neu bryderon diogelwch a wynebir gan y gymuned.’*[1]

Sefydlwyd SCCH oherwydd nad yw swyddogion yr heddlu, oherwydd natur eu rôl, yn gallu treulio’r amser mewn cymunedau sy’n angenrheidiol i feithrin hyder ac ymddiriedaeth hirdymor. Mae hyn yn parhau i fod yn wir heddiw.

Mae SCCH bob amser wedi bod yn asgwrn cefn i blismona yn y gymdogaeth. Yn 2008, SCCH ar gyfartaledd oedd 50% o’r gweithlu mewn timau plismona cymunedol[2].

Trwy fod yn weladwy ac yn bresennol, mae gan SCCH allu unigryw i ddatblygu perthnasoedd gwaith clòs ag unigolion a chyrff yn y gymuned, er mwyn cynnig cymorth i bobl agored i niwed a hyrwyddo cydlyniant cymunedol. Dyma sut mae adeiladu ymddiriedaeth mewn plismona - yn bwyllog ac yn ofalus o’r gwaelod i fyny.




## Mae gan SCCH Bwerau

*'Mae gan SCCH bwerau gorfodi cyfreithiol yn unol â gofynion heddluoedd lleol i gynorthwyo â datrys ac atal troseddau lleol yn llwyddiannus. Mae disgwyl hefyd i SCCH ymateb i ystod ehangach o faterion nad ydynt yn droseddol sy'n cyfrannu at fregusrwydd a diogelwch yn y gymuned. Bydd disgwyl iddynt weithredu'n ddoeth, gan wneud defnydd priodol o'u pwerau dynodedig a gweithredu o fewn canllawiau'r Heddlu.'*[3]

Mae gan Brif Gwnstabliaid y disgresiwn i gyflwyno unrhyw bŵer sydd gan gwnstabl yn yr heddlu i'w Swyddogion Cymorth nad yw ar y rhestr pwerau eithriedig yn Atodlen 10 o Ddeddf Plismona a Throseddu 2017. Gall y pwerau hyn fod yn helaeth iawn, ond maent yn amrywio o un heddlu i'r llall yn dibynnu ar rôl SCCH yn lleol.

Mae'r SCCH sy'n aelodau o UNSAIN wedi galw'n gyson am gael pwerau ychwanegol priodol i gynyddu eu heffeithiolrwydd gweithredol.

## Mae SCCH yn Ddatryswyr Problemau

SCCH: *'Maen nhw'n cynorthwyo â'r gwaith o nodi ac archwilio ffyrdd newydd o weithio ac arloesi ym maes plismona cymunedol, gan feddwl yn feirniadol a defnyddio methodolegau datrys problemau i ganfod atebion i broblemau yn unol ag arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth.'*[4]

Mae SCCH yn darparu plismona mewn ffyrdd newydd ac arloesol. Mae'n bosib y byddant yn gweithio mewn canolfan deulu aml-asiantaeth, yn treulio amser mewn ysgolion neu brifysgolion, yn cynnal patrolau i sicrhau teithio mwy diogel ar fysiau a threnau, neu'n rhoi cyngor i'r cyhoedd ar atal troseddau a chadw'n ddiogel.



# Mae SCCH yn Atal Troseddau

Canfu ymchwil gan Sefydliad Troseddeg Caergrawnt a gyhoeddwyd yn 2016 y gallai targedu pob 'man problemus' o ran troseddau mewn dinas gyda 21 munud ychwanegol o batrolio dyddiol ar droed gan Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu arbed cannoedd o filoedd o bunnoedd i'r system gyfiawnder trwy atal troseddau.[5]

# SCCH yw Llygaid a Chlustiau eu Heddlu

*'Bydd SCCH mewn sefyllfa i gasglu gwybodaeth sylweddol, y bydd angen ei phrosesu, yn unol â'r cylchred prosesu gwybodaeth. Ni ddylid anwybyddu'r potensial i SCCH gael mynediad at bobl a allai fel arfer wrthwynebu rhoi gwybodaeth i swyddog yr heddlu.'*[6]

Oherwydd eu bod wedi'u gwreiddio yn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, mae SCCH yn dod i adnabod patrwm ymddygiad troseddol a gwrthgymdeithasol yn eu hardal eu hunain. Mae eu hygyrchedd ac agosatrwydd y rôl yn golygu y bydd y cyhoedd yn fodlon trafod pethau â nhw mewn ffordd nad yw'n bosibl gyda swyddogion yr heddlu. Mae'r wybodaeth a ddarperir i heddluoedd gan eu SCCH yn amhrisiadwy. Os ydym yn colli ein SCCH, yna bydd yr heddlu'n colli ffynhonnell wybodaeth hanfodol.

# Mae SCCH yn Amrywiol

O ran ethnigrwydd, mae gweithlu SCCH yn fwy amrywiol na gweithlu staff yr heddlu, neu weithlu swyddogion yr heddlu.

Ym mis Mawrth 2021, nododd 10% o SCCH eu bod yn Groenddu, Asiaidd neu o Leiafrifoedd Ethnig[7], o gymharu ag 8% o swyddogion yr heddlu ac 8% o staff yr heddlu.




Roedd amrywioldeb ethnig SCCH hyd yn oed yn uwch yn y gorffennol. Yn 2006, nododd 15% o SCCH eu bod yn Groenddu, Asiaidd neu o Leiafrifoedd Ethnig. Mae UNSAIN yn credu bod y toriadau i weithlu SCCH ers 2010 i raddau helaeth ar fai am golli amrywioldeb hwn.

O ran rhywedd, gweithlu SCCH yw'r adran fwyaf cytbwys o weithlu'r heddlu – 47% yn fenywod a 53% yn ddynion ym mis Mawrth 2021.[8] .

Mae'r gyfrinach sy'n perthyn i greu gwasanaeth heddlu amrywiol, sy'n adlewyrchu'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu, yn amlwg i bawb – fe'u gelwir yn SCCH.

## Mae Niferoedd SCCH yn Gostwng yn Lloegr

Er gwaethaf llwyddiant model SCCH, y brwdfrydedd sydd gan y cyhoedd yn gyffredinol yn eu cylch, eu lefelau amrywioldeb arloesol a'u gallu i atal troseddu, mae gweithlu SCCH wedi gostwng 45% yn Lloegr ers 2010.

Gwelwyd toriadau ym mhob rhan o weithlu'r heddlu'n sylweddol yn sgil mesurau llymder y llywodraeth yn dilyn etholiad 2010, ond SCCH gafodd eu heffeithio waethaf. Mae'r ergyd ddwbl, sef gostyngiad o 30% yng ngrant yr heddlu rhwng 2010 a 2018[9] a chael gwared ar gronfa wedi'i neilltuo ar gyfer Plismona Cymunedol yn 2013, wedi arwain at 7,635 yn llai o SCCH heddiw nag oedd yn 2010.






Os byddwn yn cymharu niferoedd gweithlu'r heddlu yn 2010 ar draws Cymru a Lloegr â'r niferoedd cyfatebol yn 2021, maent yn edrych fel hyn:

| | Mawrth 2010 | Mawrth 2021 | % Diffyg |
|---|---|---|---|
| **SCCH** | 16,918 | 9,284 | - 45% |
| **Staff yr Heddlu** | 83,845 | 75,934 | - 9.4% |
| **Swyddogion Heddlu** | 143,734 | 135,301 | - 6% |

Aeth Heddlu Norfolk â'r toriadau i lefel arall, gan ddiddymu eu holl weithlu SCCH yn 2018. Ymladdodd UNSAIN yn erbyn y diddymiad, ond fe'i gwthiwyd drwodd. Diolch byth, nid oes unrhyw heddlu arall wedi dilyn yr esiampl hon, ond mewn llawer o heddluoedd yn Lloegr, mae niferoedd SCCH yn parhau i ostwng.

Mae'r dystiolaeth ganlynol gan SCCH sy'n aelodau o UNSAIN yn disgrifio effaith y toriadau yn sgil llymder ar eu gwaith:

*'Pan dorrwyd nifer y SCCH gyntaf yn 2016, gwelais ein holl waith cymunedol anhygoel, ynghyd â'r cysylltiadau da roedden ni wedi'i meithrin oedd wedi dod â mwy o wybodaeth i mewn ac mewn gwirionedd wedi atal troseddau rhag digwydd, i gyd yn mynd yn wastraff. Cyn y toriadau, roeddem yn gwneud gwaith plismona rhagweithiol i wneud yn siŵr ein bod yn ymdrin â materion cymunedol cyn iddynt ddod yn weithgarwch troseddol.'*

*'Pan ddaeth y toriadau i mewn, arweiniodd hyn at ostyngiad o 75% yn y Tîm Cymdogaethau Diogelach yr wyf yn gweithio arno, a diddymwyd shifftiau hwyr gan dynnu SCCH oddi ar y strydoedd pan oedd ein hangen fwyaf. Roedd cymunedau a oedd wedi dibynnu ar ein presennoldeb ni wedi'u siomi'n llwyr gan hyn.'*

Heb SCCH newydd yn Lloegr, ni fydd plismona yn y gymdogaeth yn gallu adfer o'r toriadau yn sgil llymder. Mae UNSAIN yn galw am gyllid

(wedi'i neilltuo os oes angen) i heddluoedd yn Lloegr recriwtio 7,600 o SCCH newydd yn lle'r rhai a gollwyd ers 2010.

## Mae Niferoedd SCCH yn Cynyddu yng Nghymru

Ers 2012, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu 500 o SCCH ychwanegol ar gyfer y pedwar heddlu yng Nghymru[10]. Yn 2021 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £3.7 miliwn ychwanegol ar gyfer mwy o SCCH ledled Cymru, gan ddod â chyfanswm y gyllideb i gynnal SCCH i dros £22 miliwn[11]. Mae'r 100 o swyddi ychwanegol a grëwyd trwy'r cymorth cynyddol hwn yn dod â chyfanswm niferoedd SCCH a ariennir gan Lywodraeth Cymru i 600. Mae hyn yn dangos yn glir iawn, lle mae ewyllys gwleidyddol i amddiffyn plismona yn y gymdogaeth, y gellir cynnal niferoedd SCCH, a hyd yn oed eu cynyddu.

## Ac i Gloi

Mae SCCH wedi bod yn llwyddiant mawr. Am yr 20 mlynedd diwethaf maent wedi bod yn cadw cymunedau'n ddiogel, yn atal a chanfod troseddau ac yn helpu i gynnal ymddiriedaeth a hyder mewn plismona. Mae arnom ddyled fawr iddynt oll.

Ond er eu holl lwyddiant, mae eu niferoedd yn Lloegr wedi gostwng, ac yn parhau i ostwng mewn llawer o heddluoedd. Rhaid mynd i'r afael â hyn gyda chyllid ychwanegol i ailgodi eu niferoedd fel y gall SCCH barhau i ddarparu diogelwch cymunedol am yr 20 mlynedd nesaf.

**Am fwy o wybodaeth ewch i unison.org.uk/pcso20**

Lluniau gan:
Ralph Hodgson a Natasha Hirst



1. Coleg Plismona:
   Llawlyfr Cenedlaethol SCCH 2022, t.14
2. https://www.police-foundation.org.uk/2017/wp-content/uploads/2010/10/the_future_of_neighbourhood_policing_final.pdf t.15
3. Coleg Plismona:
   Proffil Proffesiynol SCCH (CR-SD-PCSO V1.2)
4. Coleg Plismona:
   Proffil Proffesiynol SCCH (CR-SD-PCSO V1.2)
5. https://www.cam.ac.uk/research/news/policing-two-officers-on-the-beat-prevent-86-assaults-and-save-thousands-in-prison-costs
6. Coleg Plismona:
   Llawlyfr Cenedlaethol SCCH 2022, t.14
7. Ystadegau Cenedlaethol:
   Gweithlu Heddlu Cymru a Lloegr, 31 Mawrth 2021, ail argraffiad.
8. Ystadegau Cenedlaethol:
   Gweithlu Heddlu Cymru a Lloegr, 31 Mawrth 2021, ail argraffiad.
9. https://www.instituteforgovernment.org.uk/publication/performance-tracker-2019/police
10. https://orca.cardiff.ac.uk/id/eprint/88880/1/150226-wg-funded-community-support-officers-en.pdf
11. https://gov.wales/100-new-pcsos-funded-by-the-welsh-government

Cyhoeddwyd ac argraffwyd gan UNSAIN,
Canolfan UNSAIN, 130 Euston Road, Llundain NW1 2AY.
CU / Mehefin 2022/26823/UNP 16127. 1000.

# DATHLU 20 MLYNEDD O SWYDDOGION CYMORTH CYMUNEDOL YR HEDDLU




SCCH 20
DATHLU AMDDIFFYN

Ariannwyd gan
Gronfa Ymgyrchu UNSAIN

UNISON Cymru Wales